# Soseri hallt

2 - 4 Diwrnod

Pecyn Athro

Pwnc: Y Cylchred ddŵr CA: 1/2

## Canllaw gweithgaredd:

Yr offer sydd ei angen:

- Dysglau llydan bas
- Halen
- Dŵr
- Hylif lliwio bwyd glas

Mae'r gweithgaredd hwn yn dangos yr elfen sy'n aml yn anweledig mewn cylch dŵr, sef anweddiad. Gellir defnyddio amrywiadau yn lle mae'r dysglau wedi'u lleoli i ddangos grym gwres i gyflymu colled dŵr. Bydd yr halen a'r lliw bwyd yn crisialu wrth i'r dŵr anweddu, gan ddarparu arddangosiad clir iawn.

**I wneud y gweithgaredd:**

1. Gellir cwblhau'r gweithgaredd mewn grwpiau neu fel gweithgaredd dosbarth cyfan.

2. Rhowch ambell ddysgl wahanol i bob grŵp.

3. Cymysgwch y dŵr a'r halen gyda'i gilydd yn y dysglau, yna ychwanegwch ambell ddiferyn o'r hylif lliwio bwyd.

4. Mae nifer o wahanol ffyrdd y gall plant arbrofi, drwy ychwanegu mwy neu lai o ddŵr, cynyddu swm yr halen a rhoi'r dysglau mewn gwahanol leoliadau - rhai yn yr haul, rhai yn y cysgod a rhai wrth gwresogyddion.

5. Pan fydd pob grŵp wedi penderfynu ar ei amrywiad, byddant angen labelu pob dysgl.

6. Bydd angen i'r disgyblion gadw golwg ar eu dysglau ddwywaith y diwrnod am ychydig ddyddiau. Dylid casglu'r canlyniadau a thrafod fel dosbarth. Pa un wnaeth anweddu gyflymaf? Beth oedd yn wahanol amdani?